O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 557(Cy. 79)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

# LLYGRU MOROL, CYMRU

## Rheoliadau Trwyddedu Morol (Cofrestr o Wybodaeth Trwyddedu) (Cymru) 2011

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r offeryn hwn yn rhagnodi manylion y materion y mae'n ofynnol, gan adran 101(1) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 ("y Ddeddf"), eu cynnwys yn y gofrestr o wybodaeth a gynhelir gan Weinidogion Cymru fel awdurdod trwyddedu. Pennir y gweithgareddau morol trwyddedadwy yn adran 66 o'r Ddeddf.

Mae rheoliad 2 yn diffinio rhai termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau, a rheoliad 3 yn darparu ar gyfer cymhwyso'r Rheoliadau. Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth ynglŷn ag ym mha ffurf y caniateir cadw'r gofrestr, a gwybodaeth ragnodedig.

Mae rheoliad 5 yn rhagnodi'r manylion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y gofrestr mewn perthynas â cheisiadau a thrwyddedau. Mae rheoliadau 6 i 12 yn rhagnodi manylion ychwanegol mewn perthynas â mathau penodol o geisiadau a thrwyddedau. Mae rheoliadau 13 ac 14 yn rhagnodi manylion ynglŷn ag amrywiadau, dirymiadau, ataliadau dros dro a throsglwyddiadau trwyddedau. Mae rheoliadau 15 i 17 yn rhagnodi manylion ynglŷn â chollfarnau, mathau eraill o gamau gorfodi, a chamau unioni.

Mae adran 101(5) o'r Ddeddf yn gwahardd cynnwys gwybodaeth benodol yn y gofrestr, ar sail diogelwch gwladol neu gyfrinachedd masnachol. Gweler paragraff 7 o Atodlen 9 i'r Ddeddf am ddarpariaethau trosiannol sy'n ymwneud â'r gofrestr a gynhelir o dan

adran 14 o Ddeddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd 1985.

Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn ag ym mha ffurf y dylid rhoi'r gofrestr ar gael at Uned Caniatadau Morol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn y cyfeiriad isod.

Paratowyd asesiad llawn o effaith y system drwyddedu forol a sefydlwyd o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009, ac y mae ar gael o'r Uned Caniatadau Morol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ neu ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn www.cymru.gov.uk.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2011 Rhif 557(Cy. 79)

# DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

# LLYGRU MOROL, CYMRU

# Rheoliadau Trwyddedu Morol (Cofrestr o Wybodaeth Trwyddedu) (Cymru) 2011

*Gwnaed* *25 Chwefror 2011*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *1 Mawrth 2011*

*Yn dod i rym* *6 Ebrill 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod trwyddedu priodol o dan adran 113(4)(b) o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009(**1**), yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 101(2) a (3) a 316(1) o'r Ddeddf honno.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Trwyddedu Morol (Cofrestr o Wybodaeth Trwyddedu) (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2011.

### Dehongli

**2.**—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "yr awdurdod trwyddedu" (*"the licensing authority"*) yw Gweinidogion Cymru, yn gweithredu yn eu swyddogaeth fel awdurdod trwyddedu priodol yn yr ystyr a roddir i "appropriate licensing authority" o dan adran 113 o'r Ddeddf ;

(**1**) 2009 p.23.

ystyr “cais” (*“application”*) yw cais am drwydded, ond nid yw’n cynnwys cais am drwydded a gyflwynwyd ac a dynnwyd yn ôl yn ddiweddarach;

ystyr “cyfesurynnau” (*“co-ordinates”*) yw—

(a) cyfesurynnau lledred a hydred yn System Geodetig Fyd-eang 1984; neu

(b) cyfesurynnau yn y Grid Cenedlaethol a ddefnyddir gan yr Arolwg Ordnans;

ystyr “y Ddeddf” (*“the Act”*) yw Deddf y Môr a Mynediad i’r Arfordir 2009;

ystyr “y gofrestr” (*“the register”*) yw’r gofrestr o wybodaeth trwyddedu a gynhelir o dan adran 101 o’r Ddeddf gan Weinidogion Cymru fel yr awdurdod trwyddedu priodol;

ystyr “trwydded” (*“licence”*) yw trwydded forol.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at eitem benodol â rhif yn gyfeiriad at yr eitem â’r rhif hwnnw yn adran 66(1) o’r Ddeddf (sy’n pennu gweithgareddau morol trwyddedadwy).

**Cymhwyso**

**3.** Mae’r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw weithgaredd morol trwyddedadwy y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod trwyddedu priodol ar ei gyfer o dan adran 113 o’r Ddeddf(**1**).

**Y gofrestr a gwybodaeth ragnodedig**

**4.**—(1) Ceir cadw’r gofrestr mewn unrhyw ffurf.

(2) Rhaid i’r gofrestr gynnwys y manylion a ragnodir yn y Rheoliadau hyn.

(3) Mae rheoliad 5 yn rhagnodi manylion mewn perthynas â phob cais a thrwydded.

(4) Mae rheoliadau 6 i 12 yn rhagnodi manylion ychwanegol mewn perthynas â mathau penodol o geisiadau a thrwyddedau.

(5) Mae rheoliadau 13 ac 14 yn rhagnodi manylion mewn perthynas ag amrywiadau, dirymiadau, ataliadau dros dro a throsglwyddiadau trwyddedau.

(6) Mae rheoliadau 15 i 17 yn rhagnodi manylion mewn perthynas â chollfarnau, camau gorfodi eraill a chamau unioni.

---

(**1**) O dan adran 113(4)(b) o’r Ddeddf, Gweinidogion Cymru yw’r awdurdod trwyddedu priodol mewn perthynas ag unrhyw beth a wneir wrth ymgymryd â gweithgareddau morol trwyddedadwy yng Nghymru a rhanbarth glannau Cymru ac eithrio gweithgareddau y mae’r Ysgrifennydd Gwladol yn awdurdod trwyddedu priodol ar eu cyfer o dan adran 113(4)(a) a (5) o’r Ddeddf. Mae i “rhanbarth glannau Cymru” yr ystyr a roddir i “Welsh inshore region” yn adran 322(1) o’r Ddeddf

(7) Rhaid i'r awdurdod trwyddedu gynnwys yn y gofrestr y manylion a ragnodir gan reoliadau 5 i 14 cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl cael neu creu'r wybodaeth dan sylw.

## Manylion cyffredinol ar gyfer ceisiadau a thrwyddedau

**5.** Y manylion mewn perthynas â phob cais a thrwydded yw—

(a) y dyddiad y gwnaed y cais;

(b) rhif cyfeirnod y cais neu rif y drwydded a ddyroddwyd gan yr awdurdod trwyddedu;

(c) rhif cyfeirnod cais neu rif trwydded unrhyw gais neu drwydded arall, a ystyrir gan yr awdurdod trwyddedu yn berthynol i'r cais neu'r drwydded dan sylw;

(ch) enw a chyfeiriad y ceisydd neu'r deiliad trwydded;

(d) enw a chyfeiriad unrhyw asiant, contractwr neu is-gontractwr y bwriedir iddo gymryd rhan yn y gweithgaredd y mae'r cais neu'r drwydded yn berthynol iddo;

(dd) unrhyw ardal cynllun morol(**1**) y mae'r cais neu'r drwydded yn berthynol iddi;

(e) dyddiad cychwyn y drwydded a'r dyddiad y daw i ben (fel y gwnaed cais amdanynt yn achos cais neu fel y'u caniatawyd yn achos trwydded);

(ff) y dyddiad y rhoddwyd y drwydded;

(f) manylion unrhyw amodau y rhoddwyd y drwydded yn ddarostyngedig iddynt;

(g) manylion, a gyflwynwyd gyda'r cais, am unrhyw astudiaethau o effeithiau posibl y gweithgaredd sydd i'w drwyddedu, ar yr amgylchedd ac ar iechyd dynol; ac

(ng) manylion unrhyw wybodaeth a gyflenwyd, erthygl a ddangoswyd, neu ganlyniad unrhyw ymchwiliad, archwiliad neu brawf a gynhaliwyd o dan adran 67(4) o'r Ddeddf (pŵer i wneud yn ofynnol bod ceisydd yn cyflenwi gwybodaeth etc) ac unrhyw wybodaeth, erthygl neu ganlyniad o'r fath a gyflenwyd neu a ddangoswyd rywfodd arall fel rhan o'r cais.

## Dyddodi sylweddau neu wrthrychau

**6.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau a thrwyddedau i ymgymryd â

(**1**) Gweler adran 51(1) o'r Ddeddf.

gweithgaredd morol trwyddedadwy sy'n dod o fewn eitem 1, 2 neu 3 (dyddodi sylweddau neu wrthrychau).

(2) Y manylion ychwanegol yw—

(a) disgrifiad, cyfansoddiad a maint y sylwedd neu'r gwrthrych sydd i'w ddyddodi;

(b) enw a disgrifiad o unrhyw gerbyd, llong, awyren, adeiledd morol neu gynhwysydd arnofiol y bwriedir gwneud y dyddodiad ohono, ac yn achos unrhyw long, ei rhif cofrestru a'r wlad y'i cofrestrwyd ynddi;

(c) cyfesurynnau'r man y bwriedir gwneud y dyddodiad ynddo;

(ch) pan fo'r gweithgaredd yn dod o fewn eitem 1(c), cyfesurynnau'r adeiledd ar y tir y gwneir y dyddodiad ohono;

(d) pan fo'r gweithgaredd yn dod o fewn eitem 3, y cyfesurynnau lle y bwriedir llwytho;

(dd) yn achos dyddodi at ddibenion gwaredu, manylion unrhyw ddulliau gwaredu amgen a ystyriwyd gan y ceisydd, a'r rheswm dros ddyddodi'r sylwedd neu'r gwrthrych yn y môr.

## Suddo

**7.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau a thrwyddedau i ymgymryd â gweithgaredd morol trwyddedadwy sy'n dod o fewn eitem 4, 5 neu 6 (suddo llongau neu gynwysyddion arnofiol).

(2) Y manylion ychwanegol yw—

(a) y dyddiad y bwriedir suddo;

(b) enw'r llong neu'r cynhwysydd arnofiol y bwriedir ei suddo ac yn achos unrhyw long, ei rhif cofrestru a'r wlad y'i cofrestrwyd ynddi;

(c) y cyfesurynnau lle y bwriedir suddo'r llong neu'r cynhwysydd arnofiol;

(ch) disgrifiad o unrhyw lwyth yn y llong neu'r cynhwysydd arnofiol, gan gyfeirio at ei gyfansoddiad a'i faint.

## Adeiladu, newid neu wella gweithiau

**8.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau a thrwyddedau i ymgymryd â gweithgaredd morol trwyddedadwy sy'n dod o fewn eitem 7 (adeiladu, newid neu wella gweithiau).

(2) Y manylion ychwanegol yw—

(a) disgrifiad o'r gweithiau sydd i'w cyflawni a'r dyddiadau y cynhelir y gweithiau arnynt neu rhyngddynt;

(b) y cyfesurynnau lle y bwriedir adeiladu, newid neu wella gweithiau.

**Defnyddio cerbyd etc i symud sylweddau neu wrthrychau etc oddi ar wely'r môr**

**9.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau a thrwyddedau i ymgymryd â gweithgaredd morol trwyddedadwy sy'n dod o fewn eitem 8 (defnyddio cerbyd, llong etc i symud sylweddau neu wrthrychau oddi ar wely'r môr).

(2) Y manylion ychwanegol yw—

(a) disgrifiad o'r sylwedd neu'r gwrthrych y bwriedir ei symud oddi ar wely'r môr;

(b) enw a disgrifiad o unrhyw gerbyd, llong, awyren, adeiledd morol neu gynhwysydd arnofiol y bwriedir ei ddefnyddio i symud y sylwedd neu'r gwrthrych oddi ar wely'r môr, ac, yn achos unrhyw long, ei rhif cofrestru a'r wlad y'i cofrestrwyd ynddi;

(c) y cyfesurynnau lle y bwriedir symud y gwrthrych neu'r sylwedd;

(ch) y rheswm dros symud y sylwedd neu'r gwrthrych oddi ar wely'r môr;

(d) manylion unrhyw ddulliau amgen o symud a ystyriwyd gan y ceisydd.

**Treillio**

**10.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau a thrwyddedau i ymgymryd â gweithgaredd morol trwyddedadwy sy'n dod o fewn eitem 9 (treillio).

(2) Y manylion ychwanegol yw—

(a) manylion y math o dreillio y bwriedir ei wneud;

(b) y cyfesurynnau lle y bwriedir treillio;

(c) manylion am unrhyw wybodaeth a ddelir gan yr awdurdod trwyddedu ynglŷn â halogiad y deunydd y bwriedir ei dreillio.

**Dyddodi neu ddefnyddio ffrwydron**

**11.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau a thrwyddedau i ymgymryd â gweithgaredd morol trwyddedadwy sy'n dod o fewn eitem 10 (dyddodi neu ddefnyddio sylwedd neu wrthrych ffrwydrol).

(2) Y manylion ychwanegol yw—

(a) y cyfesurynnau lle y bwriedir dyddodi neu ddefnyddio'r sylwedd neu'r gwrthrych ffrwydrol;

(b) disgrifiad, gan gynnwys y maint, o’r sylwedd neu’r gwrthrych ffrwydrol hwnnw;

(c) manylion am y rheswm dros dyddodi neu ddefnyddio’r sylwedd neu’r gwrthrych ffrwydrol hwnnw.

**Llosgi neu lwytho cerbyd etc ar gyfer llosgi**

**12.**—(1) Mae’r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau a thrwyddedau i ymgymryd â gweithgaredd morol trwyddedadwy sy’n dod o fewn eitem 11, 12 neu 13 (llosgi sylweddau neu wrthrychau neu lwytho cerbyd, llong etc ar gyfer llosgi).

(2) Y manylion ychwanegol yw—

(a) disgrifiad o’r sylwedd neu’r gwrthrych y bwriedir ei losgi, ynghyd â’i gyfansoddiad a’i faint;

(b) enw a disgrifiad o unrhyw gerbyd, llong, awyren, adeiledd morol neu gynhwysydd arnofiol y bwriedir cyflawni’r llosgi arno, ac yn achos unrhyw long, ei rhif cofrestru a’r wlad y’i cofrestrwyd ynddi;

(c) y cyfesurynnau lle y bwriedir cyflawni’r llosgi;

(ch) pan fo’r gweithgaredd yn dod o fewn eitem 13, y cyfesurynnau lle y bwriedir llwytho;

(d) manylion unrhyw ddewisiadau amgen, yn hytrach na llosgi, a ystyriwyd gan y ceisydd, a’r rheswm dros losgi’r sylwedd neu’r gwrthrych.

**Amrywio a dirymu trwyddedau, neu’u hatal dros dro**

**13.** Y manylion ynglŷn ag amrywio, dirymu neu atal trwydded dros dro yw—

(a) rhif y drwydded;

(b) dyddiad yr amrywiad, dirymiad neu’r ataliad dros dro;

(c) y rheswm dros yr amrywio, dirymu neu atal dros dro;

(ch) yn achos amrywiad, manylion yr amrywiad.

**Trosglwyddo trwyddedau**

**14.** Y manylion mewn perthynas ag unrhyw drosglwyddiad trwydded yw—

(a) rhif y drwydded;

(b) enw a chyfeiriad y person y trosglwyddwyd y drwydded iddo;

(c) dyddiad y trosglwyddiad.

**Collfarnau**

**15.**—(1) Y manylion mewn perthynas ag unrhyw gollfarn am unrhyw dramgwydd o dan Ran 4 o’r Ddeddf yw—

(a) y ddarpariaeth o’r Ddeddf y collfarnwyd y person o dani;

(b) rhif y drwydded (os yw’n briodol);

(c) enw a chyfeiriad y person a gollfarnwyd;

(ch) dyddiad y tramgwydd;

(d) y rheswm dros erlyn;

(dd) y llys lle clywyd yr achos;

(e) dyddiad y gollfarn;

(f) unrhyw gosb a osodwyd gan y llys.

(2) Ym mharagraff (1) nid yw “collfarn” yn cynnwys collfarn a wrth-drowyd yn dilyn apêl.

**Camau gorfodi eraill**

**16.**—(1) Y manylion mewn perthynas ag unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd mewn perthynas â Rhan 4 o’r Ddeddf yw—

(a) rhif y drwydded (os yw’n briodol);

(b) enw a chyfeiriad y person y cymerwyd camau gorfodi yn ei erbyn;

(c) y math o gamau gorfodi a gymerwyd;

(ch) dyddiad y tramgwydd neu weithgaredd arall y cymerwyd camau gorfodi mewn perthynas ag ef;

(d) y rheswm dros y camau gorfodi;

(dd) manylion unrhyw gosb ariannol benodedig neu gosb ariannol newidiol(**1**) a osodwyd, neu unrhyw daliad a wnaed i gyflawni rwymedigaeth am gosb ariannol benodedig.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr “camau gorfodi” (*“enforcement action”*) yw—

(a) dyroddi hysbysiad cydymffurfio, hysbysiad adfer, hysbysiad stop, hysbysiad diogelwch brys(**2**),

(b) gosod cosb ariannol sefydlog (neu ryddhau o’r rhwymedigaeth am y gosb cyn ei gosod) neu gosb ariannol newidiol o dan Orchymyn Trwyddedu Morol (Sancsiynau Sifil) (Cymru) 2011(**3**),

(**1**) Gweler adran 115(1) am ddiffiniadau o’r termau Saesneg cyfatebol

(**2**) Gweler adran 115(1) am ddiffiniadau o’r termau Saesneg cyfatebol.

(**3**) O.S. 2011/[ ] (Cy. )

ond nid yw'n cynnwys unrhyw hysbysiad neu gosb o'r fath a wrth-drowyd gan apêl.

## Camau unioni a gymerwyd gan yr awdurdod trwyddedu

**17.** Y manylion mewn perthynas ag unrhyw weithiau a ymgymerwyd gan yr awdurdod trwyddedu o dan adran 106 o'r Ddeddf (pŵer i gymryd camau unioni) yw—

(a) rhif y drwydded (os yw'n briodol);

(b) dyddiad y gweithiau;

(c) y math o weithiau a ymgymerwyd;

(ch) y cyfesurynnau lle'r ymgymerwyd â'r gweithiau;

(d) y rheswm dros ymgymryd â'r gweithiau.

*Jane Davidson*
Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

25 Chwefror 2011